


# **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

## Beth sy'n bwysig i chi?

## Cyflwynwch ddeiseb mewn tri cham

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**

**A oes gennych fater pwysig, cynnig neu bryder yr hoffech i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei ystyried? Gallwch ddweud wrthym beth sy'n bwysig i chi mewn tri cham rhwydd drwy drefnu deiseb.**

## 1. Cyflwyno eich cynnig

Y ffordd hawsaf o gael mynediad i'r system yw trwy ein system e-ddeisebau ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym hefyd yn croesawu deisebau papur traddodiadol.

Er mwyn eich rhoi ar ben y ffordd, cysylltwch â'r Tîm Deisebau i drafod geiriad eich deiseb. Byddwn yn cydweithio â chi i sicrhau bod eich deiseb yn gymwys i'r Cynulliad ei hystyried a byddwn hefyd yn egluro'r mathau o faterion na ellir eu hystyried. Rydym yn argymell i chi wneud hyn cyn i chi ddechrau casglu llofnodion.

## 2. Casglu llofnodion

Fel unigolyn, bydd angen i chi gasglu o leiaf ddeg llofnod er mwyn i'ch deiseb gael ei hystyried. Os ydych yn gwmni corfforaethol, neu hyd yn oed yn gymdeithas neu'n grŵp anghorfforedig, dim ond un llofnod sydd ei angen arnoch.

Mae casglu llofnodion ar-lein yn hawdd.
Ewch i **www.cynulliadcymru.org/e-petitions** i gael rhagor o fanylion.

## 3. Cyflwyno eich deiseb

**E-ddeisebau -** Ar ôl y dyddiadau cau ar gyfer casglu llofnodion ar eich e-ddeiseb, caiff ei hasesu gan clerc y Pwyllgor Deisebau i weld a ellir ei chaniatáu, felly ni ddylech wneud mwy ar hyn o bryd. Bydd y clerc yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad yr asesiad hwn.

**Deisebau papur -** Gallwch anfon deisebau papur at y Tîm Deisebau, neu gyflwyno deiseb i Aelod Cynulliad yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Os hoffech wneud hyn, cysylltwch â'r Tîm Deisebau.

Yna, caiff eich deiseb ei hasesu gan y Tîm Deisebau i weld a ellir ei chaniatáu, a byddant yn gadael i chi wybod beth yw canlyniad yr asesiad. Os ydych eisoes wedi trafod geiriad eich deiseb â'r Tîm Deisebau mae'n debygol iawn o basio'r prawf hwn.

Os caniateir eich deiseb, caiff ei hystyried gan Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad manwl i'ch deiseb ac yn penderfynu ar y ffordd orau ymlaen.

## Cysylltu â ni

Os oes diddordeb gennych mewn cyflwyno deiseb, cysylltwch â ni ar **029 2089 8998** neu e-bost
**deisebau@cymru.gov.uk**

Rydym hefyd yn fwy na bodlon cwrdd â chi.

Y Tîm Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

**www.cynulliadcymru.org**
**www.cynulliadcymru.org/e-petitions**